**ANALYSIS OF INSPECTION REPORTS**

***(Reports published between July 2025 – March 2026)***

| School | | Number on Roll | Inspection Date | Publication Date |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Santes Helen** | Caernarfon | 40 | 26/01/2026 | 30/03/2026 |
| *Strong emphasis is placed on pupils' spiritual, moral and social development through purposeful opportunities to reflect on values such as empathy and kindness.* | | | | |
| **Ysgol Llanystumdwy** | Llanystumdwy, Cricieth | 25 | 19/01/2026 | 23/03/2026 |
| *Regular and purposeful opportunities are provided by teachers for pupils to reflect on spiritual and moral issues. Through meaningful experiences, pupils are encouraged to discuss their feelings and beliefs, such as when enjoying walking in the fresh air while taking part in community activities.* | | | | |
| **Ysgol Bro Hedd Wyn** | Trawsfynydd | 64 | 24/11/2025 | 29/01/2026 |
| *The provision supports pupils to develop their ethical and spiritual values successfully. For example, collective worship sessions provide purposeful opportunities for pupils to reflect on their own thoughts and feelings.* | | | | |
| **Ysgol Ein Harglwyddes** | Bangor | 152 | 24/11/2025 | 29/01/2026 |
| *Staff foster close working relationships with pupils. They encourage pupils to cooperate and share ideas and feelings sensibly, which develops their respect for others successfully. Staff ensure that pupils develop effective personal, social and creative skills, which creates a good awareness of their locality and a strong appreciation of other cultures.*<br><br>*Teachers provide an interesting curriculum that develops pupils' understanding of their local area and the wider world skilfully, for example by learning about the Great Strike of Penrhyn at the start of the twentieth century and the Welsh community in Patagonia. In addition, teachers plan sensitive opportunities for pupils to discuss important issues, such as relationships and diversity. They provide pupils with engaging experiences to develop positive attitudes to spiritual awareness and moral matters, which affect their own lives and those of other people. As a result, pupils show respect for others and develop their awareness of different identities successfully.*<br><br>*The pupil leadership groups make positive contributions to the daily life of the school. These include the 'Healthy Heroes' who promote positive lifestyles amongst their peers and the 'Mini Vinnies' who collect goods for the local cathedral's food bank.* | | | | |
| **Ysgol Gynradd Talysarn** | Talysarn, Caernarfon | 96 | 17/11/2025 | 22/01/2026 |
| *Through class themes, reflection periods and worship sessions, pupils have opportunities to explore values such as kindness, respect and empathy, which contribute to their spiritual, moral, social and cultural development in a beneficial way.* | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Through classroom themes and purposeful joint worship periods, pupils have rich opportunities to consider ethical issues and values such as kindness and respect for others in society. Leaders promote a positive multicultural environment that celebrates diversity and fosters pupils' understanding of different backgrounds and traditions. This contributes directly to developing pupils' spiritual, moral, social and cultural awareness. As a result, almost all pupils show empathy, kindness and respect towards each other and others.*<br><br>***Spotlight: Effective cooperation across the federation to develop pupils' digital skills***<br>*Strong cooperation across the federation is a central element of the success of the digital provision. Teachers plan carefully jointly to provide rich opportunities for pupils to work together to develop their digital skills successfully. For example, as part of theme work, teachers organised online meetings to support pupils from both schools to work together to design and create a comprehensive website about the countries of the world. During this project, pupils undertook research to collect and collate information, inputted key information into a purposeful database and used the information to sort and analyse data effectively.*<br><br>*This cooperation method is extremely successful in developing a wide range of pupils' skills. As well as strengthening their digital skills, pupils receive rich opportunities to improve their literacy and numeracy skills, and foster their understanding of global citizenship. As a result, pupils appreciate that their learning is relevant to the real world and show high levels of enthusiasm and commitment.* | | | | |
| **Ysgol Brynaerau** | Pontllyfni, Caernarfon | 57 | 17/11/2025 | 22/01/2026 |
| *Through class themes, reflection periods and worship sessions, pupils have opportunities to explore values such as kindness, respect and empathy, which contribute to their spiritual, moral, social and cultural development in a beneficial way.*<br><br>*Through classroom themes and purposeful joint worship periods, pupils have rich opportunities to consider ethical issues and values such as kindness and respect for others in society. Leaders promote a positive multicultural environment that celebrates diversity and fosters pupils' understanding of different backgrounds and traditions. This contributes directly to developing pupils' spiritual, moral, social and cultural awareness. As a result, almost all pupils show empathy, kindness and respect towards each other and others.* | | | | |
| **Ysgol Llandygai** | Llandygai, Bangor | 80 | 03/11/2025 | 08/01/2026 |
| *The school has planned a purposeful and interesting curriculum that supports pupils' knowledge of their local area, Wales and the wider world. Staff have fostered positive relationships between the school and its community. Pupils benefit from an interesting range of visits, visitors to the school, and regular opportunities to discuss moral and social issues.*<br><br>*Staff offer a curriculum that is rooted firmly in the local context and fosters a sense of belonging among pupils. A strong emphasis is placed on pupils' spiritual, moral and social development as they reflect on their kindness, for example, and on values such as respect and empathy.* | | | | |
| **Ysgol Eifion Wyn** | Porthmadog | 212 | 13/10/2025 | 15/12/2025 |
| *Staff and pupils foster close and loyal working relationships. They encourage pupils to co-operate and share ideas and feelings successfully, which develops their respect for other people intelligently. Staff ensure that pupils develop beneficial personal, social and creative skills, which create a good awareness of their cynefin, or local area, and a strong cultural appreciation.* | | | | |

<table>
<tr><td colspan="5">Teachers plan sensible opportunities for pupils to discuss important issues such as relationships and diversity, and purposeful experiences to develop pupils' positive spiritual and moral attitudes. As a result, pupils show respect for others and develop their awareness of different identities successfully and demonstrate a positive attitude to learning.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Llanllyfni</td><td>Llanllyfni, Caernarfon</td><td>77</td><td>06/10/2025</td><td>08/12/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Staff provide effective opportunities for pupils to develop sound values and explore their spiritual and ethical beliefs. During joint worship sessions, teachers provide purposeful opportunities for pupils to learn about important values including equality, rights, and fairness. Through this, pupils have a good understanding of the need to treat everyone in society with respect.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Abercaseg</td><td>Bethesda</td><td>84</td><td>16/06/2025</td><td>18/08/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Staff work together successfully to develop a stimulating curriculum for pupils that celebrates the unique heritage of the area. Staff share the headteacher's passionate vision for developing pupils into principled citizens who are proud of their community and the Welsh language. As a result, pupils demonstrate the school's motto: 'Gorau addysg, cael gwreiddiau' successfully.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Pen-y-bryn</td><td>Bethesda</td><td>117</td><td>16/06/2025</td><td>18/08/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol Pen-y-bryn provides a broad and stimulating curriculum that deepens pupils’ understanding and promotes their appreciation of their heritage successfully and encourages them to look to the future confidently. Staff share a clear vision to foster principled and enterprising citizens who are proud of their community and the Welsh language. Teachers plan meaningful activities that foster cross-curricular skills and reflect history, culture and the Welsh language successfully. They make the most of resources in the local area to enrich pupils’ education, such as inviting experts to the school and visiting relevant educational sites. Through this, pupils develop a thorough understanding of their local area as a means of having a wider influence on their lives.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Y Gelli</td><td>Caernarfon</td><td>230</td><td>13/05/2025</td><td>16/07/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Leaders know the needs of the pupils, the school and its community extremely well. Recently, leaders have developed a close relationship with a local special school and old people’s home. This has developed pupils' awareness to be well-informed citizens about their community and to respect the needs and rights of others.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Bontnewydd</td><td>Bontnewydd, Caernarfon</td><td>207</td><td>13/05/2025</td><td>16/07/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Staff place a strong emphasis on promoting positive behaviour and fostering pupils’ respect for each other effectively.<br><br>Staff support pupils to develop their spiritual, moral and cultural awareness successfully. For example, in school assemblies, they provide suitable opportunities for pupils to reflect on key ethical issues. Many pupils consider the opinions and values of others and develop a sound understanding of individuals who are different from them.</td></tr>
</table>

**DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU**

***(Adroddiadau a gyhoeddwyd rhwng Gorffennaf 2025 – Mawrth 2026)***

<table>
<tr><th colspan="2">Ysgol</th><th>Nifer ar y Gofrestr</th><th>Dyddiad yr Arolygiad</th><th>Dyddiad Cyhoeddi</th></tr>
<tr><td>Ysgol Santes Helen</td><td>Caernarfon</td><td>40</td><td>26/01/2026</td><td>30/03/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion drwy gyfleoedd pwrpasol i fyfyrio ar werthoedd fel empathi a charedigrwydd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Llanystumdwy</td><td>Llanystumdwy, Cricieth</td><td>25</td><td>19/01/2026</td><td>23/03/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion ysbrydol a moesol. Drwy brofiadau ystyrlon, anogir disgyblion i drafod eu teimladau a’u credoau, megis wrth fwynhau cerdded yn yr awyr iach wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Hedd Wyn</td><td>Trawsfynydd</td><td>64</td><td>24/11/2025</td><td>29/01/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae’r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gwerthoedd moesegol ac ysbrydol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae sesiynau cydaddoli yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fyfyrio ar eu meddyliau a’u teimladau eu hunain.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Ein Harglwyddes</td><td>Bangor</td><td>152</td><td>24/11/2025</td><td>29/01/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith agos â disgyblion. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n synhwyrol, sy’n datblygu eu parch at eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy’n creu ymwybyddiaeth dda o’u hardal leol a gwerthfawrogiad cryf o ddiwylliannau eraill.<br><br>Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hardal leol a’r byd ehangach yn fedrus, er enghraifft drwy ddysgu am Streic Fawr y Penrhyn ar ddechrau’r ugeinfed ganrif a’r gymuned Gymreig ym Mhatagonia. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd sensitif i ddisgyblion drafod materion pwysig, megis perthnasoedd ac amrywiaeth. Maent yn darparu profiadau deniadol i ddisgyblion ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ymwybyddiaeth ysbrydol a materion moesol, sy’n effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus.<br><br>Mae grwpiau arwain disgyblion yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at fywyd beunyddiol yr ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys yr ‘Healthy Heroes’ sy’n hyrwyddo ffyrdd cadarnhaol o fyw ymysg eu cyfoedion a’r ‘Mini Vinnies’ sy’n casglu nwyddau ar gyfer banc bwyd yr eglwys gadeiriol leol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Talysarn</td><td>Talysarn, Caernarfon</td><td>96</td><td>17/11/2025</td><td>22/01/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Drwy themâu dosbarth, cyfnodau myfyrio a sesiynau addoli, mae gan ddisgyblion gyfleoedd i archwilio gwerthoedd megis caredigrwydd, parch ac empathi, sy’n cyfrannu’n fuddiol at eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.<br><br>Drwy themâu ystafell ddosbarth a chyfnodau cydaddoli pwrpasol, mae gan ddisgyblion gyfleoedd cyfoethog i ystyried materion moesegol a gwerthoedd megis caredigrwydd a pharch at eraill mewn cymdeithas. Mae</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5">arweinwyr yn hyrwyddo amgylchedd amlddiwylliannol cadarnhaol sy’n dathlu amrywiaeth ac yn meithrin dealltwriaeth disgyblion o wahanol gefndiroedd a thraddodiadau. Mae hyn yn cyfrannu’n uniongyrchol at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos empathi, caredigrwydd a pharch tuag at ei gilydd ac eraill.<br><br>Sbotolau: Cydweithio effeithiol ar draws y ffederasiwn i ddatblygu medrau digidol disgyblion<br>Mae cydweithio cryf ar draws y ffederasiwn yn elfen ganolog o lwyddiant y ddarpariaeth ddigidol. Mae athrawon yn cynllunio’n ofalus ar y cyd i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion weithio gyda’i gilydd i ddatblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o waith thema, trefnodd athrawon gyfarfodydd ar-lein i gefnogi disgyblion o’r ddwy ysgol i gydweithio i ddylunio a chreu gwefan gynhwysfawr am wledydd y byd. Yn ystod y prosiect hwn, cynhaliodd disgyblion ymchwil i gasglu a choladu gwybodaeth, mewnbynnu gwybodaeth allweddol i gronfa ddata bwrpasol a defnyddio’r wybodaeth i drefnu a dadansoddi data’n effeithiol.<br>Mae’r dull cydweithio hwn yn hynod lwyddiannus wrth ddatblygu ystod eang o fedrau disgyblion. Yn ogystal â chryfhau eu medrau digidol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac i feithrin eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwerthfawrogi bod eu dysgu’n berthnasol i’r byd go iawn ac yn dangos lefelau uchel o frwdfrydedd ac ymrwymiad.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Brynaerau</td><td>Pontllyfni, Caernarfon</td><td>57</td><td>17/11/2025</td><td>22/01/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Drwy themâu dosbarth, cyfnodau myfyrio a sesiynau addoli, mae gan ddisgyblion gyfleoedd i archwilio gwerthoedd megis caredigrwydd, parch ac empathi, sy’n cyfrannu’n fuddiol at eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.<br><br>Drwy themâu ystafell ddosbarth a chyfnodau cydaddoli pwrpasol, mae gan ddisgyblion gyfleoedd cyfoethog i ystyried materion moesegol a gwerthoedd megis caredigrwydd a pharch at eraill mewn cymdeithas. Mae arweinwyr yn hyrwyddo amgylchedd amlddiwylliannol cadarnhaol sy’n dathlu amrywiaeth ac yn meithrin dealltwriaeth disgyblion o wahanol gefndiroedd a thraddodiadau. Mae hyn yn cyfrannu’n uniongyrchol at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos empathi, caredigrwydd a pharch tuag at ei gilydd ac eraill.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Llandygai</td><td>Llandygai, Bangor</td><td>80</td><td>03/11/2025</td><td>08/01/2026</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae’r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm pwrpasol a diddorol sy’n cefnogi gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol, Cymru a’r byd ehangach. Mae staff wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol a’i chymuned. Mae disgyblion yn elwa o ystod ddiddorol o ymweliadau, ymwelwyr â’r ysgol, a chyfleoedd rheolaidd i drafod materion moesol a chymdeithasol.<br><br>Mae staff yn cynnig cwricwlwm sydd wedi’i wreiddio’n gadarn yn y cyd-destun lleol ac sy’n meithrin ymdeimlad o berthyn ymysg disgyblion. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion wrth iddynt fyfyrio ar eu caredigrwydd, er enghraifft, ac ar werthoedd megis parch ac empathi.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Eifion Wyn</td><td>Porthmadog</td><td>212</td><td>13/10/2025</td><td>15/12/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith agos a ffyddlon. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n llwyddiannus, sy’n datblygu eu parch at bobl eraill yn ddeallus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol, sy’n creu ymwybyddiaeth dda o’u cynefin, neu’u hardal leol, a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5">Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion drafod materion pwysig megis perthnasoedd ac amrywiaeth, a phrofiadau pwrpasol i ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol cadarnhaol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus ac yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Llanllyfni</td><td>Llanllyfni, Caernarfon</td><td>77</td><td>06/10/2025</td><td>08/12/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesegol. Yn ystod sesiynau cydaddoli, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am werthoedd pwysig gan gynnwys cydraddoldeb, hawliau a thegwch. Drwy hyn, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o’r angen i drin pawb mewn cymdeithas â pharch.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Abercaseg</td><td>Bethesda</td><td>84</td><td>16/06/2025</td><td>18/08/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus i ddatblygu cwricwlwm ysgogol i ddisgyblion sy’n dathlu treftadaeth unigryw’r ardal. Mae staff yn rhannu gweledigaeth angerddol y pennaeth ar gyfer datblygu disgyblion yn ddinasyddion egwyddorol sy’n falch o’u cymuned a’r Gymraeg. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos arwyddair yr ysgol, ‘Gorau addysg, cael gwreiddiau’, yn llwyddiannus.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Pen-y-bryn</td><td>Bethesda</td><td>117</td><td>16/06/2025</td><td>18/08/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Pen-y-bryn yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy’n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac yn hyrwyddo eu gwerthfawrogiad o’u treftadaeth yn llwyddiannus, ac yn eu hannog i edrych i’r dyfodol yn hyderus. Mae staff yn rhannu gweledigaeth glir i feithrin dinasyddion egwyddorol a mentrus sy’n falch o’u cymuned a’r Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ystyrlon sy’n meithrin medrau trawsgwricwlaidd ac yn adlewyrchu hanes, diwylliant a’r Gymraeg yn llwyddiannus. Maent yn gwneud y gorau o adnoddau yn yr ardal leol i gyfoethogi addysg disgyblion, megis gwahodd arbenigwyr i’r ysgol ac ymweld â safleoedd addysgol perthnasol. Drwy hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o’u hardal leol fel ffordd o gael dylanwad ehangach ar eu bywydau.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Y Gelli</td><td>Caernarfon</td><td>230</td><td>13/05/2025</td><td>16/07/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a’i chymuned yn eithriadol o dda. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi datblygu perthynas agos ag ysgol arbennig leol a chartref pobl hŷn. Mae hyn wedi datblygu ymwybyddiaeth disgyblion fel dinasyddion gwybodus am eu cymuned ac i barchu anghenion a hawliau eraill.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Bontnewydd</td><td>Bontnewydd, Caernarfon</td><td>207</td><td>13/05/2025</td><td>16/07/2025</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn meithrin parch disgyblion at ei gilydd yn effeithiol.<br><br>Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mewn gwasanaethau ysgol, maent yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol allweddol. Mae llawer o ddisgyblion yn ystyried barn a gwerthoedd eraill ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy’n wahanol iddynt.</td></tr>
</table>